# Chris Packham a Jamal Edwards yn dathlu 25 o ariannu natur

08/11/2019



Mae’r arbenigwr bywyd gwyllt Chris Packham a sefydlydd SB.TV, Jamal Edwards MBE wedi dod ynghyd i ddathlu 25 mlynedd o fuddsoddiad y Loteri Genedlaethol mewn treftadaeth naturiol.

## Ariannu cadwraeth ledled y DU

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae'r Loteri Genedlaethol wedi rhoi £829miliwn i gadwraeth treftadaeth naturiol ledled y DU, er mwyn helpu i ddiogelu a gwarchod bywyd gwyllt.

Mae hyn yn cynnwys:

- £548m ar brosiectau bioamrywiaeth
- £227m yn cefnogi tirweddau pwysig a hanesyddol
- mwy na 70,000 hectar o gaffael tir

Yn ogystal, gwariwyd dros £900m yn adfywio mwy na 900 o barciau cyhoeddus.

> "Efallai, heb ei sylweddoli hyd yn oed, mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi cyfrannu'n aruthrol at fywyd gwyllt, rhywogaethau a mannau gwyrdd cyfoethog y DU."
>
> *- Chris Packham, arbenigwr bywyd gwyllt*

Ymhlith llwyddiannau bywyd gwyllt nodedig mae adferiad adar y môr ar Ynysoedd Sili, gwiwerod coch yn dychwelyd yng Ngogledd Iwerddon ac ailgyflwyno Pili Pala brith yng nghoedwig Rockingham.

Diolch i gyllid gan y Loteri Genedlaethol, mae tair o brif elusennau bywyd gwyllt y DU - yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Coed Cadw a'r RSPB - wedi gallu cael effaith gadarnhaol sylweddol ar gadw a diogelu natur.

Gwyliwch Chris Packham a Jamal Edwards yn adeiladu gwesty trychfilod yn nhiroedd gwlybion Woodberry a ariennir gan y Loteri Genedlaethol yn Llundain:

Trawsgrifiad fideo

## Sut mae chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi helpu



Creu gwesty trychfilod yn nhiroedd gwlybion Woodberry]

Dywedodd Chris Packham, sy'n cael seibiant o wneud y breswylfa pryfed genwair:

“Fel Is-Lywydd yr RSPB, gwelaf drosof fy hun y fantais y mae cyllid y Loteri Genedlaethol yn ei chael ar warchod cynefinoedd naturiol – nid yn unig drwy gefnogi adar ond hefyd drwy ddiogelu anifeiliaid a phryfed, creu parciau newydd a chynyddu gwyrddni trefol”

"Efallai, heb sylweddoli hyd yn oed, fod chwaraewyr y Loteri Genedlaethol wedi cyfrannu'n aruthrol at fywyd gwyllt, rhywogaethau a mannau gwyrdd cyfoethog y DU.”

Yn ogystal ag adfer ac agor mannau fel tiroedd gwlybion Woodberry, mae Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi helpu i gefnogi anifeiliaid, pryfed, blodau a choed sydd mewn perygl. Mae rhywogaethau fel ystlumod, draenogod, siarcod basddwr, gwiwerod coch, martens pinwydd, llygod d?r, grugieir a'r wenynen fawr felen wedi elwa.

> “Mae pobl ifanc yn fwy ymwybodol nag erioed o'u heffaith ar y byd naturiol o'u cwmpas, gan gynnwys fy hun - felly yr wyf yn teimlo'n angerddol ynghylch troi hynny'n weithredu gwirioneddol."
>
> *- Jamal Edwards MBE, sefydlydd SB.TV*

Mae arian gan y Loteri Genedlaethol hefyd wedi helpu prosiectau i gadw rhai o'n mannau agored a'n harfordir pwysicaf ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys coetiroedd, gwlyptiroedd a dolydd, twyni tywod sydd mewn perygl, corsydd mawn dan fygythiad a chynefinoedd ucheldir sydd wedi erydu.

Dywedodd Jamal Edwards: "Mae pobl ifanc yn fwy ymwybodol nag erioed o'u heffaith ar y byd naturiol o'u hamgylch, gan gynnwys fi fy hun – felly rwy'n teimlo'n angerddol am droi hynny'n weithredu go iawn."



Chris Packham a Jamal Edwards

"Rwyf wedi dysgu llawer gan Chris heddiw, ac o'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Coed Cadw a'r RSPB, am sut y gallwn greu newid ein hunain. Rwyf hefyd wedi rhyfeddu i ddarganfod faint o arian sy'n mynd i'r sefydliadau gwych hyn, diolch i chwaraewyr y Loteri Genedlaethol."

"Wnes i erioed feddwl y gallai prynu tocyn Loteri Genedlaethol hefyd fynd tuag at arbed rhywogaeth neu helpu i warchod natur yn y DU."

## 10 cyngor a ffyrdd hawdd o gefnogi natur

Fodd bynnag, mae bywyd gwyllt yn wynebu pwysau cynyddol ac mae angen gwneud mwy eto.

Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, Coed Cadw a'r RSPB wedi ymuno â Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i lansio 10 cyngor a ffyrdd hawdd i bobl o bob cefndir i chwarae eu rhan i gadw a chefnogi bywyd gwyllt.

## 25 mlynedd o ariannu treftadaeth

Dros y 25 mlynedd diwethaf, Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fu'r cyllidwr grant penodedig mwyaf o ran treftadaeth y DU. Rydym wedi dyfarnu £8bn i fwy na 44,000 o brosiectau ledled y DU.



## ddordeb hefyd mewn ...



[e natural world]



[hol i'r awyr agored yn y DU]

**Changing lives: from hostage rescue to nature reserve**